# Siarter Angor Gogledd Cymru

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL
**GOGLEDD CYMRU**
**NORTH WALES**
REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

| | |
|---|---|
| **1.** | **GWEITHLU, CYFLOGAETH A SGILIAU** |
| **1.1** | Byddwn yn ceisio talu'r cyflog byw go iawn a sicrhau telerau ac amodau teg, gan leihau contractau ansicr a chefnogi lles a diogelwch ariannol staff. |
| **1.2** | Byddwn yn creu cyfleoedd i'r bobl bellaf o'r farchnad lafur gael mynediad at hyfforddiant, prentisiaethau a chyflogaeth o fewn ein sefydliad, a hyrwyddo cyfleoedd dilyniant a hyfforddiant i'n staff. |
| **1.3** | Byddwn yn cefnogi iechyd a lles staff trwy gynnig cryf sy'n canolbwyntio ar atal, gan gynnwys cyfleoedd i fod yn gorfforol egnïol yn y gwaith a chael mynediad at fwyd a diod iach. |
| **1.4** | Byddwn yn cryfhau effaith iechyd ein gweithlu trwy hyrwyddo mynediad at hyfforddiant Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC), gan helpu staff a defnyddwyr gwasanaeth i wneud dewisiadau iachach a mwy cynaliadwy. |
| **1.5** | Byddwn yn gweithio gyda darparwyr addysg a Sefydliadau Angor i ymateb i anghenion sgiliau'r gweithlu yn y dyfodol a gwella llwybrau cyflogaeth hygyrch. |
| **1.6** | Byddwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg trwy gefnogi staff i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg, yn enwedig mewn rolau sy'n wynebu'r cyhoedd, gan gyfrannu at uchelgais Cymraeg 2050. |
| **2.** | **ADEILADAU A THIR** |
| **2.1** | Byddwn yn archwilio ac adolygu ein defnydd o adeiladau a thir presennol er mwyn nodi cyfleoedd posibl rhagweithiol yn y dyfodol ar gyfer defnydd cymunedol a gwirfoddol. |
| **2.2** | Byddwn yn cynnwys cymunedau yn gynnar wrth gynllunio datblygiadau newydd. |
| **3.** | **EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL** |
| **3.1** | Byddwn yn ymrwymo i deithio cynaliadwy ac egnïol drwy fabwysiadu'r Siarter Teithio Llesol a rhannu dysgu ledled Gogledd Cymru. |
| **3.2** | Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i leihau allyriadau carbon, lleihau gwastraff, gwella seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth, ac addasu i newid yn yr hinsawdd. |
| **4.** | **CYNNWYS CYMUNEDOL** |
| **4.1** | Byddwn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau trwy fabwysiadu Camau Gweithredu’r Cenhadaethau. |
| **4.2** | Byddwn yn ymgorffori dulliau Datblygu Cymunedol yn Seiliedig ar Asedau (ABCD) o ddatblygu strategaeth, cynllunio a darparu gwasanaethau. |
| **4.3** | Byddwn yn annog ac yn galluogi staff i gymryd rhan mewn gweithgarwch cymunedol a gwirfoddol. |
| **4.4** | Byddwn yn cefnogi mynediad teg i gyfleoedd celfyddydol, treftadaeth a lles diwylliannol i'n staff a'n cymunedau lleol. |
| **5.** | **CAFFAEL A GWARIANT** |
| **5.1** | Byddwn yn caffael yn lleol lle bo hynny'n bosibl, gan ddefnyddio partneriaethau cymdeithasol i gefnogi twf lleol, cyflogaeth, gwerth cymdeithasol, a budd amgylcheddol. |
| **5.2** | Byddwn yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill i nodi cyfleoedd ar gyfer caffael ar y cyd lle mae hyn yn cyflawni canlyniadau gwell. |

